CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Arloesedd Caerdydd@sbarc

www.cardiff.ac.uk/cardiffinnovations-at-sbarc

Arloesedd Caerdydd@sbarc?

Ai busnes uchelgeisiol ydych chi sy'n chwilio am swyddfeydd, labordai neu rywle i gydweithio? Rydym yn gymuned arloesedd sy'n tyfu yng nghanol Prifysgol Caerdydd.

A chithau'n denant, byddwch yn cysylltu ac yn cydweithio â'r Brifysgol i dyfu, arloesi a datblygu eich rhwydweithiau'n gyflymach. Mae sbarc|spark yn adeilad ar Gampws Arloesedd y Brifysgol, sy'n cynnwys Canolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC), Adeilad Hadyn Ellis a'r Ganolfan Ymchwil Drosi. Mae ymchwil ac arbenigedd blaenllaw'r Brifysgol yn ymestyn dros ystod enfawr o ddisgyblaethau.

Yn ogystal ag arbenigedd academaidd, mae gan y Brifysgol rwydwaith byd-eang o bartneriaid. Mae ein partneriaid yn amrywio o fusnesau newydd i rai mawr ac o'r llywodraeth i'r trydydd sector.

Byddwch yn rhan o gymuned gyfannol yn sbarc|spark ac yn cymysgu â chydweithwyr academaidd a phroffesiynol o Barc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SPARK), rhanddeiliaid a phartneriaid y Brifysgol a myfyrwyr sy'n entrepreneuriaid.

Prifysgol Caerdydd yw aelod mwyaf newydd y bartneriaeth SETsquared, brand ag amrywiaeth o raglenni ar gyfer dechrau ac ehangu busnes sydd ar flaen y gad yn fyd-eang. Bydd ymuno â'n cymuned yn eich cysylltu â'r rhwydwaith meithrin busnesau ar draws partneriaid SETsquared ym Mryste, Caerfaddon, Caerwysg, Southampton a Surrey.

SETsquared Cardiff
Part of the SETsquared Partnership

PROUD MEMBER OF UKSPA
BUILDING·TECHNOLOGY·BUSINESS

Cipolwg

17,500 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa

4,800 troedfedd sgwâr o le i gydweithio Desgiau sbâr a mannau cydweithio

4,240 troedfedd sgwâr o ofod labordy gwlyb

Gwibgysylltiad â'r rhyngrwyd (cyflymderau hyd at 500 megabit yr eiliad), teleffoni a chymorth 24/7 ar gael gan gwmni allanol

Mannau cydweithio pwrpasol i entrepreneuriaid sy'n **fyfyrwyr/ graddedigion**

Mannau i gynnal cynadleddau/ digwyddiadau ar gyfer hyd at **100 o bobl** Mannau arddangos/ cyflwyno ar y cyd

Tîm Cymorth Busnes pwrpasol ar gael

Gwasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol ar gael am bris cystadleuol

Ystafelloedd cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynnwys cyfleusterau cynadledda o'r radd flaenaf

Derbynfa ganolog a **chaffi Milk & Sugar**

Swyddfeydd a Labordai

Swyddfeydd

Mae ein swyddfeydd, sydd ar gael am bris cystadleuol, yn amrywio o ran eu maint, o 226 troedfedd sgwâr i 1,163 troedfedd sgwâr. Mae capasiti'r swyddfeydd hyn hefyd yn amrywio, o dri pherson i uchafswm o 18 o bobl. Bydd desgiau, cadeiriau a chyfleusterau storio'n cael eu darparu.

Labordai

Mae ein labordai gwlyb wedi'u ffitio'n llawn ac yn amrywio o ran eu maint, o 464 troedfedd sgwâr i 678 troedfedd sgwâr. Mae pob labordy'n cynnwys sinciau draenio a mannau ysgrifennu ar wahân. Mae'r labordai mwy yn cynnwys cypyrddau gwyntyllu.

Cyfleusterau'r adeilad

Bydd ystafelloedd cyfarfod y gellir ac na ellir eu cadw ar gael. Bydd offer TG ac offer clyweledol ar gael ym mhob un.

Mae cegin bwrpasol ar bob llawr, sy'n cynnwys te a choffi. Mae caffi ar y safle a digon o fannau yn yr adeilad i weithio mewn grwpiau llai.

Mae gwibgysylltiad â'r rhyngrwyd (cyflymderau hyd at 500 megabit yr eiliad), teleffoni a chymorth 24/7 yn wasanaethau a fydd yn cael eu darparu gan gwmni allanol.

Bydd gwasanaethau glanhau, gwasanaethau diogelwch a gwasanaethau'r dderbynfa, ynghyd â mynediad 24/7 i'r swyddfa â cherdyn allwedd, wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth. Bydd modd parcio ar y safle am bris ychwanegol.



Cydweithio

Mae ein mannau cydweithio yn sbarc|spark ar y 4ydd a'r 5ed llawr. Yn y mannau hyn mae desg gyfforddus, te a choffi a golygfeydd gwych o Cathays a Pharc Bute. P'un a ydych yn gweithio ar eich liwt eich hun, yn dechrau busnes neu'n gweithio mewn ffordd hybrid, ein nod yw cynnig lle croesawgar a hyblyg i chi.

Yn sbarc|spark, byddwch yn cymysgu â chydweithwyr academaidd a thechnegol o SPARK a myfyrwyr sy'n entrepreneuriaid, yn ogystal â chael budd o'r isod.

	Desg **7 diwrnod**	**Desg ar brydles** **Desg benodol**
Cost y mis (heb gynnwys TAW)	£56	£220
Mynediad i'r adeilad	Oriau	24/7
Defnydd teg o ystafelloedd cyfarfod	○	●
Mynediad am ddim i'r stiwdio podlediadau	○	●
Storfa bwrpasol	○	●
Mynediad i loceri tymor byr	●	●
Blwch post sy'n cael ei drin	○	●
Y gallu i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymorth busnes	●	●
Y gallu i gymryd rhan yng ngweithgareddau cymunedol sbarc|spark	●	●
Mynediad i storfa ddiogel ar gyfer beiciau	●	●
	O leiaf dri mis	O leiaf chwe mis

Os ydych yn un o fyfyrwyr neu raddedigion diweddar Prifysgol Caerdydd ac yn datblygu eich busnes eich hun, cysylltwch â'r Tîm Dyfodol Myfyrwyr i gael cymorth, a all gynnwys mynediad am ddim i Arloesedd Caerdydd@sbarc: studentconnect@caerdydd.ac.uk



Lleoliad

Mae sbarc|spark ar y Campws Arloesedd ym Mharc Maendy, Cathays. Mae'r campws yn agos at brif adeiladau'r Brifysgol, ac mae modd ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar feic neu yn y car.

Mae'n daith gerdded fer o orsaf reilffordd Cathays, sy'n saith munud yn unig o orsaf reilffordd Caerdydd Canolog a chysylltiadau trafnidiaeth cenedlaethol.

Mae sawl safle bysiau ar Heol Maendy. Mae'r bysiau'n teithio i mewn i'r ddinas ac o'i hamgylch yn rheolaidd.

Mae Caerdydd yn ddinas sy'n eich annog i feicio. Mae dros 50 milltir o feicffyrdd ar gael. Bydd storfa ar gael ar y safle ar gyfer beiciau, yn ogystal â gorsaf rhannu beiciau gan y darparwr poblogaidd, OVO Bikes.

Os oes rhaid i chi yrru, mae **sbarc|spark** yn agos at yr M4 ac oddeutu tair awr o Lundain a 50 munud o Fryste. Codir tâl bychan bob mis am barcio, a bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cytundeb tenantiaeth.

Gall tenantiaid fanteisio ar archfarchnad leol, Parc Bute (sydd wedi ennill gwobrau) ac opsiynau digonol ar gyfer bwyta cinio, gan gynnwys y caffi ar y safle a bwytai cyfagos.

Our tenants

Antiverse

bipsync

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

GENLETICS

MAKING WALES BETTER iwa GWNEUD CYMRU WELL

nesta

RedKnight Grants & Funding Specialists

Simply

sotic

Taith

Cysylltu â ni

Mae Arloesedd Caerdydd@ sbarc yn cynnwys mannau cydweithio, swyddfeydd, labordai gwlyb, ystafelloedd cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol a chyfleusterau cynadledda o'r radd flaenaf.

I gael rhagor o wybodaeth am rentu, siaradwch â'r Rheolwr Gweithrediadau Arloesedd, Rhys Pearce-Palmer.

www.cardiff.ac.uk/innovations-at-sbarc
sbarcinnovations@caerdydd.ac.uk